| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Mai 2013** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol** |
| **Teitl:** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2012/13** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae hwn yn adroddiad eglurhaol i'w drafod ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft (DLlB) ar gyfer 2012/13.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn argymell mabwysiadu'r DLlB bob blwyddyn fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor. Mae Grŵp Llywodraethu'r Cyngor yn ymgynghori â'r Pwyllgor i'w ganiatáu i drafod a herio'r DLlB.

Bydd y Prif Weithredwr a'r Arweinydd yn llofnodi'r fersiwn derfynol o'r DLlB, y bydd y Pwyllgor yn ei gymeradwyo ym Mehefin 2013.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Y Pwyllgor i ystyried y DLlB Drafft 2012/3, gan herio ac argymell mwy o waith neu welliannau os bydd angen hynny.